# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 25/01/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

John Brinley Jones (Cad) William Penri Jones Greta Hughes Thomas Victor Jones
D Andrew Parry William Roger Jones Pat Humphreys (Clerc)

**Mae'r Cyfarfod heno yn cael ei gynnal dros y we gyda meddalwedd Zoom yn unol â chyfarwyddiadau COVID-19**

1. **Ymddiheuriadau**
   Dim.

2. **Datgan Buddiant Ariannol neu Personol**
   Dim.

3. **Cofnodion Pwyllgor 30/11/2020**
   'Roedd gwall yn y fersiwn gyntaf sef dim cofnod fod Barbara Warren wedi ymddiswyddo ac hefyd 'roedd copi Greta Hughes a John B. Jones gyda'r penawd 'Cofnodion cyfarfod 26/10/2020' arnynt er fod copiau y gweddill o'r aelodau a'r clerc yn dweud 'Cofnodion 30/11/2020' arnynt. I osgoi hyn ddigwydd eto penderfynwyd cadw copi ar PDF o hyn allan a'u gyrru fel PDF. Mae enw Barbara Warren wedi cael ei dynnu oddi ar y rhestr presenoldeb cyfarfod.
   Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.
   Cynnig: Greta Hughes Eilio: Andrew Parry

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Marwolaeth Thomas Richard Jones**
   Bu Tom farw yn frawychus o sydyn rhyw bythefnos yn ôl a cafwyd ychydig o eiriau gan y cadeirydd er mwyn cofnodi ei gyfraniad i'r gymuned dros y blynyddoedd. Ategodd William Penri Jones fod ei gyfraniad i'r gymuned yn gyffredinnol yn un doeth a dymunol iawn ar hyd y blynyddoedd ac fe fydd colled mawr iawn mewn sawl maes yn y pentref ar ei ôl. Diolchodd William Penri Jones i'r cadeirydd am gofnodi hyn. Gyrrwyd cerdyn cydymdeimlo gan y clerc i'r teulu a fe aeth y cadeirydd i gydymdeimlo â'r teulu.
   **Y Farchnad Dai Gwyliau – E-bost Cyngor Tref Nefyn**
   Cafwyd e-bost gan cadeirydd Cyngor Tref Nefyn yn gofyn am gefnogaeth i'w hymgyrch ail gartrefi a thai gwyliau drwy anfon llythyr y maent hwy wedi ei baratoi at Julie James Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford Prifweinidog Cymru, Eluned Morgan Gweinidog y Gymraeg a'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn Arweinydd Cyngor Gwynedd. Cynnigiwyd gan William Penri Jones i yrru'r llythyrau gan fod y sefyllfa llawn cynddrwg yn Llanbedrog ac mewn sawl pentref arall ym Mhen Llyn a datgannodd ei fod yn falch iawn fod Nefyn wedi cymeryd yr arweiniad y maent wedi ei gymeryd ac yn hyrwyddo'r ymgyrch ymlaen. Nodwyd hefyd gan Greta Hughes fod problem yn yr ardal gyda pobol o ffwrdd eisiau prynnu tai pobol leol er nad ydynt ar y farchnad. Maent yn mynd at drigolion lleol heb ddim math o wahoddiad i ofyn os ydi eu tai ar werth ac yn gallu bod yn gas ac yn fygythiol wrthynt. Mae yna lawer o bobol fregus yn yr ardal felly fe fydd rhaid cadw llygaid ar y mater.
   Penderfyniad: y clerc i anfon y llythyr at y pedwar.

Cynnig: William Penri Jones  Eilio: Andrew Parry

**Sbwriel ar ochor y ffordd fawr.**

Cafwyd cwyn gan y cadeirydd ar ôl bod yn cerdded o Mynytho lawr i Lanbedrog fod sbwriel ar ochor y ffordd wrth ymyl y Ship. Mae'n amlwg ei fod yn broblem fawr ddim yn unig yn Llanbedrog ond mewn llawer tref/pentref arall megis Pwllheli lle mae gwirfoddolwyr yn mynd i gaslu'r sbwriel. Mae'n almwg fod y sbwriel yma yn cael eu taflu o geir gan mai sbwriel McDonalds ydi llawer ohonynt.

Penderfyniad: y clerc i yrru llythyr i Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt drefnu i godi'r sbwriel.

**5. Cyllideb**

Cafodd bawb gopi o'r gyllideb drwy e-bost gyda'r agenda. Wedi cael trafodaeth penderfynwyd gwneud mân newidiadau iddi a cytunodd pawb i godi'r praesept £1000.00.

Penderfyniad: derbyn y gyllideb yn gywir ac awgrymu praesept o £22,500.00

Cynnig: William Penri Jones  Eilio: Andrew Parry

**6. LLwybrau**

**Tendar – Torri Llwybrau**

Mae hysbyseb wedi cael ei roi yn y Llanw Llyn ar gyfer holl waith y Cyngor gyda dyddiad cau o 31/01/2021. Ar ôl cael ymholiad ynglyn â'r gwaith torri fe aeth y cadeirydd drwy'r rhestr sydd ganddom o'r holl lwybrau a tir y Cyngor a newid pa mor aml mae y cae chwarae a cae pentre llan yn cael ei dorri. Fe aeth drwy'r rhestr llwybrau gan gymharu'r rhestr gyda map o lwybrau Llanbedrog a gawsom gan Cyngor Gwynedd gan ddod i'r casgliad ein bod angen mynd drwyddo yn iawn a'i ddiweddaru gan neud yn siwr ein bod yn gwybod lle mae pob llwybr a'r pwynt cychwyn a'r pwynt gorffen.

Penderfyniad: y cadeirydd i yrru rhestr o'r llwybrau i weddill yr aelodau i weld os yw pawb yn cytuno ei fod yn gywir. Y clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i ofyn am reolau torri ac os oes yna gyfyngiadau ynglyn â lled llwybrau cyhoeddus.

**E-bost Iwan Hughes**

Cafwyd e-bost gan Iwan Hughes yn dangos pryder fod tirlithriad wedi digwydd ar ran o lwybr yr arfordir, mae Andrew Parry am anfon lluniau ohono i bawb, sy'n dangos pa mor berygl ydyw. Mae'r materion eraill a godwyd gan Iwan Hughes yn cael sylw yn y tendar.

Penderfyniad: y clerc i gysylltu ar frys gyda'r swyddog llwybrau ynglyn a'r tirlithriad a blaenyrru lluniau Andrew Parry iddo.

**7. Wal Mynwent Llanbedrog (cwyn Mr Pollard)** – cyflogi 'odd job man'

Cafwyd cwyn gan Mr Pollard sy'n byw ochor arall i wal y fynwent fod y wal mewn cyflwr gwael a bod angen ei thrwsio. Fe drwsiodd Mr Pollard y wal pan symudodd yma i fyw yn 2011 ond erbyn rwan mae angen ei thrwsio eto gan fod y cerrig sydd ar ben y wal yn rhydd. Mae'r cadeirydd wedi bod yno ac wedi tynnu lluniau o'r wal.

Penderfyniad: y cadeirydd i anfon lluniau o'r wal i bawb a'i roi ar agenda mis nesaf.

**8. Y Fynwent –** Cynllunio i’r dyfodol a Tacluso’r fynwent
Mae’r fynwent yn edrych lot gwell i beth oedd hi ond yn dal mae angen gwneud gwaith fel peintio’r giat fel mae Iwan Hughes yn son yn ei e-bost, trwsio’r wal a tocio’r coed sydd wrth y giat. Gan fod yna ddipyn o waith angen cael ei wneud ar wahanol lefydd yn y pentref cynigiodd William Roger Jones a Thomas Victor Jones y byddai’n syniad da i gysylltu gyda cynghorau eraill i weld pwy mae nhw yn gyflogi i wneud eu gwaith achlysurol.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu gyda clerc Cyngor Cymuned Llanengan i holi pwy sy’n gwneud eu man waith atgyweirio nhw a rhoi hysbyseb yn y Llanw Llyn ac ar facebook yn gofyn am weithiwr achlysurol i wneud mân waith atgyweirio o gwmpas yr ardal.

**9. Cae Chwarae**
**Trwsio’r ffens**
Mae hyn yn dod o dan y pwynt blaenorol sef cael hyd i weithiwr achlysurol i wneud y gwaith.
**Gwagio bin Cae Chwarae**
Cafodd y clerc alwad ffôn gan Victor Price sydd wedi bod yn gwagio bin y cae chwarae ers blynyddoedd lawer yn wirfoddol. Mae’r bin bob amser yn llawn dwr ac mae’n gorfod ei gario fel hyn yn ei gar oddi yna. Gan fod y cae chwarae wedi cau ar y funud mae’n gofyn os fedrith y Cyngor ffendio rhywun arall i wagio’r bin pan fydd yn ail agor. Cynigiodd y cadeirydd ein bod yn defnyddio bin y neuadd yn lle gorfod ei gario oddi yno a cynigiodd Andrew Parry i wagio bin y cae chwarae i bin y neuadd a’i roi allan bob tair wythnos.
Penderfyniad: y clerc i ddiolch i Victor Price am wagio y bin ac i dderbyn cynnig Andrew Parry o roi y bin allan bob tair wythnos.

**10. Oriau ychwanegol y cyn glerc (87 awr)**
Bu’r cadeirydd drwy wybodaeth am oriau ychwanegol y cyn glerc yn drwyadl ac nid yw yn gallu gweld dim byd o’i le gyda’r ffigyrau y mae hi wedi eu cyflwyno sef 87 awr ar £10.98 yr awr yn gwneud £955.00. Cwestiynnodd Greta Hughes beth yn union oedd hi’n ei wneud i warantu gymaint o oriau ychwanegol ac hefyd ydi hi wedi talu treth incwm a ydi hi wedi cael P45? Eglurwyd nad oedd yn bosibl rhoi P45 iddi gan nad oedd ar y llyfrau ac ddim ar unrhyw system gyflogau PAYE a oedd yn anfon gwybodaeth i HMRC am ei chyflogaeth ac felly nid oedd yn bosibl creu P45 ar ei chyfer. Cynnigiodd William Penri Jones i’r cadeirydd a’r clerc i ofyn iddi beth oedd ei sefyllfa pan oedd yn gadael ei swydd gyda’r Cyngor ynglyn a talu treth incwm.
Penderfyniad: y clerc a’r cadeirydd i anfon llythyr i’r cyn glerc yn gofyn am wybodaeth ei threth incwm.

**11. Asesiad Risc**
Cafodd pawb gopi o’r asesiad risc ar ôl y pwyllgor diwethaf er mwyn mynd trwyddo i weld os oedd bob dim yn berthnasol i Lanbedrog a daethpwyd i’r casgliad bod nifer o bethau fel y goeden nadolig a sioe i lawr arno a ddim yn berthnasol i Lanbedrog. Cynnigiodd Andrew Parry bod yr aelodau i gyd yn ei ddarllen yn fwy hamddenol ac ysgrifennu nodiadau a’i drafod eto ym mis Ebrill.

Penderfyniad: ei roi ar agenda mis Ebrill i roi cyfle i bawb edrych drosto.

**12. Seddi Gwag**
Penderfynwyd peidio gwneud dim hyd nes bydd polisiau'r Llywodraeth wedi cael eu newid.

**13. Awdit**
Dim diweddariad ar yr awdit mae'r clerc yn dal i ddelio gyda'r pwyntiau ond mae'r BDO yn araf iawn yn ymateb i e-byst y clerc. Nododd y cadeirydd fod y TAW wedi ei dderbyn yn ôl ar gyfer blynyddoedd 2018-2019 a 2019-2020 ac ar ôl diwedd Mawrth 2020 fe fydd y clerc yn anfon ffurflen i hawlio swm yn ôl ar gyfer 2020-2021, diolchodd bawb i'r clerc am ei gwaith.

**14. Rhestr Eiddo**
Fe adroddwyd gan yr archwilwyr nad oedd y rhestr eiddo wedi ei ddiweddaru y llynedd felly fe fydd rhaid ei gael yn iawn erbyn archwiliad flwyddyn nesaf. Gofynnodd Greta Hughes os oes modd rhannu dogfennau ar zoom fel fod y pwyllgor yn gallu gweld y dogfennau o dan sylw a'u newid yn y man â'r lle.
Penderfyniad: y clerc a'r cadeirydd i edrych i fewn i'r peth erbyn y pwyllgor nesaf a'r clerc i yrru copi o'r rhestr eiddo i bawb a'i roi ar agenda mis Chwefror.

**15. Coronavirus covid-19** – Diweddariad & Polisi Iechyd a Diogelwch
Dim – cario mlaen i ddefnyddio Zoom.

**16. Neuadd y Pentref** – Diweddariad
Mae'r mandate banc wedi cael ei newid ac mae'r rhestr o bobol sy'n arwyddo'r sieciau wedi eu diweddaru. Dywedodd y cadeirydd fod yna gyfrif ar gyfer y stafell snwcer ond nad yw'n gwybod pwy sydd yn arwyddo sieciau ar ei gyfer, cynghorodd Thomas Victor Jones iddo ofyn i Ian Williams er mwyn i ni fedru creu mandate newydd ar gyfer y cyfrif yma.
Gofynodd y cadeirydd oes oedd gan y clerc wybodaeth am gyfrif Nat West ond hyd yn hyn nid yw wedi dod ar draws dim felly cytunodd i fynd drwy bob ffeil gan y cyn glerc eto i gael hyd i'r manylion.
Gofynnodd Thomas Victor Jones os oedd maes parcio'r neuadd yn glir drost y flwyddyn newydd a cadarnhaodd y cadeirydd ei fod wedi gyrru neges i bawb sydd yn parcio yno i beidio a gwneud drost y dyddiau hynny a fe roddodd y clerc hysbyseb yn dweud yr run peth ar facebook.
Mae'r charities commission wedi gyrru e-bost ynglyn â'r neuadd yn dweud nad yw'r cyfrifon wedi cael eu rhoi fyny ar y safle we ers 2016-2017 felly fe fydd angen rhoi y blynyddoedd 2017-2018, 2018-2019 a 2019-2020 i fyny ac er mwyn gwneud hynny bydd rhaid cael y mantolen banc ar gyfer y blynyddoedd yma. Cynigiwyd ein bod yn creu internet banking ar gyfer y cyfrif yma er mwyn gallu cael copiau o'r mantolen yn sydyn.
Mae'r clerc wedi bod yn diweddaru dyddiadau y padiau a'r batri ar y diffib sydd tu allan i'r neuadd ar y wefan The Circuit. Soniodd y pwyllgor eu bod wedi meddwl cael golau uwchben

y diffib gan ei bod reit dywyll yn y fan honno a cytunnodd y clerc bod angen golau reit uwch ei ben er mwyn gweld y ffigyrau ar y bocs côd.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu gyda Kevin Thomas y trydannwr i ofyn iddo roi golau led uwchben y diffib sydd yn dod ymlaen pan mae rhywun yn cerdded ato.
Cadarnhaodd Andrew Parry ei fod wedi torri goriad y neuadd i Ysgol Llanbedrog.

**Ceisiadau Cynllunio**

**C21/0034/38/CC** – Ger y Môr, Ffordd y Traeth, Llanbedrog – Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed.
Penderfyniad: Gadael i Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd a'r Swyddog Coed wneud penderfyniad.

**Taliadau wedi eu Cymeradwyo**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y Clerc –** Pat Humphreys | **£380.33** |
| **Llanw Llyn –** Hysbyseb Tendar | **£12.60** |
| **Cyngor Gwynedd** – Bin Brown y Fynwent | **£35.00** |
| **Chris Jones** – Gosod y goeden nadolig a'r goleuadau, eu tynnu a cael gwared a'r goeden. | **£300.00** |
| **Taliadau wedi eu Derbyn** | |
| **Glyn Owen –** angladd Thomas Richard Jones | **£145.00** |
| **Glyn Owen –** angladd Jennie Goodman Jones | **£145.00** |

**Gohebiaeth**

1. **Clerks & Council Direct –** Newyddlen
2. **Un Llais Cymru –** Hyfforddiant
3. **CLlLC -** 23.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan
4. **Llywodraeth Cymru -** Datganiad ysgrifenedig y Gweinidogion Cam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth
5. **GIG -** AP Covid-19
6. **Llywodraeth Cymru** - Diweddariad - Cofio 2020
7. **Llywodraeth Cymru -** 30.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan CLlLC
8. **CLlLC -** 02.10.2020 Diweddariad am y coronafeirws
9. **Panel Annibynnol Cymru** - Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2021
10. **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru -** Cylchlythyr Medi 2020
11. **Un Llais Cymru -** Hyfforddiant ar lein - Cymorth Cynllunio Cymru
12. **Un Llais Cymru –** Gwybodaeth am clyw
13. **Un Llais Cymru** - rhaglen gweminarau hyfforddiant 2020/21

**Cais am gyfraniad**

1. **O Ddrws i Ddrws** - Cais i ariannu cynllun i ddanfon pobl i'r feddygfa
2. **BOBATH –** Canolfan Therapi Plant Cymru
3. **Ysgol Llanbedrog –** Rhodd i osod polyn fflag
4. **Elusen Ambiwlans Awyr Cymru –** Cais am rhodd.
5. **Cynorthwyo Nyrsys a gwasanaethau lleol Marie Curie -** Cais am gyfraniad
6. **Parêd Dewi Sant Pwllheli –** Cais am gyfraniad
7. **Dawns i Bawb –** Cais am gyfraniad
8. **Theatr Bara Caws –** Cais am gyfraniad
9. **Eisteddfod yr Urdd –** Sir Ddimbych 2020
10. **Victim Support –** Cais am gyfraniad
11. **Elusen Ambiwlans Awyr Cymru -** Cais am gyfraniad
12. **Hosbis Dewi Sant –** Cais am gyfraniad
13. **Llangollen International Musical Eisteddfod –** Cais am gyfraniad
14. **Teenage Cancer Trust Cymru –** Cais am gyfraniad
15. **Grŵp Apêl Uned Cancr a Haematoleg Alaw** – Cais am gyfraniad
16. **Ymchwil Canser Cymru** – Cais am gyfraniad
17. **Tenovus** - Helpu Cynnal Gobaith
18. **Tarian Cymru** - Cais am gyfraniad
19. **Ty Gobaith** – Cais am gyfraniad
20. **Calonau Cymru** - Cais am gyfraniad
21. **Marie Curie** – Cais am gyfraniad
22. **O Ddrws I Ddrws** - gario cleifion i apwyntiadau meddygfa, ysbyty, optegydd, chiropodydd ayyb

Gan fod mwy a mwy yn cael ei roi ar y rhestr a dim penderfyniad yn cael ei wneud cynnigiodd William Roger Jones fod pawb yn mynd drwy'r rhestr i benderfynnu at bwy yr ydym am roi cyfraniad erbyn pwyllgor nesaf ac hefyd gweld pwy sydd wedi gyrru mantolen i fewn gyda'r cais fel sydd yn ofynnol.

Gofynnodd William Roger Jones a ddylia'r Cyngor ddechrau edrych i mewn i gael y fynwent newydd yn barod ac fe wnaeth y cadeirydd dynnu sylw pawb at y ffaith mae enw John Harris a Tom sydd ar y gweithredoedd felly fe fydd rhaid edrych i mewn i hynny hefyd hefo'r cyfreithiwr. Mae'r gwaith paratoi wedi cael ei gychwyn ond wedi mynd yn anghof dros y misoedd diwethaf felly fe fydd rhaid ail gydiad yn y broses yn fuan.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 21.03.